

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu Swydd a Chynorthwywyr Gweithrediaeth) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu Swydd a Chynorthwywyr Gweithrediaeth) 2022

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
29 Mawrth 2022

RHAN 1: DISGRIFIAD

1. Trosolwg

- 1.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“Deddf 2021”) yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi aelodau awdurdodau lleol i gael eu penodi'n gynorthwywyr i weithrediaeth awdurdod lleol (adran 57) ac i ddau neu ragor o aelodau ar weithrediaeth awdurdod lleol rannu swydd (adran 58).
- 1.2 Mae Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu Swydd a Chynorthwywyr Gweithrediaeth) 2022 ('y Rheoliadau') yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i adrannau 57 a 58 o Ddeddf 2021 ac Atodlen 7 iddi, sy'n diwygio darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Atodlen 1 iddi (“Deddf 2000”). Mae angen y diwygiadau hyn i ategu gweithrediad adrannau 57 a 58 o Ddeddf 2021 gan yr awdurdodau lleol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Mae angen y Rheoliadau i sicrhau bod trefniadau rhannu swydd yn gweithio yn unol â'r bwriad, ac yn gymwys yn gyson i awdurdod lleol, pwyllgor gwasanaethau democrataidd, pwyllgorau safonau, a phwyllgorau llywodraethu ac archwilio.
- 2.2 Mae'n ofynnol i'r Rheoliadau ddod i rym cyn gynted â phosibl ar ôl etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022 er mwyn i'r darpariaethau rhannu swydd yn adran 58 o Ddeddf 2021 ac Atodlen 7 iddi fod yn gymwys mewn ffordd gyson a theg. Bwriedir iddynt, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd, gael eu gwneud a dod i rym cyn gynted â phosibl ar ôl y ddatl arnynt yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Mai 2022.
- 2.3 Er y bydd hyn ar ôl dyddiad etholiadau llywodraeth leol arferol nesaf ar 5 Mai 2022, ac ar ôl y dyddiad y daw adrannau 57 a 58 o Ddeddf 2021 i rym ac Atodlenni 6 a 7 iddi (hefyd 5 Mai 2022), bernir, o gofio'r gwaith y mae'n ofynnol i gynghorau ei wneud mewn perthynas ag ethol cyngor newydd, na fydd gan y gwahaniaeth o ran amseru rhwng cychwyn y Rheoliadau hyn a darpariaethau perthnasol Deddf 2021 bron dim goblygiadau ymarferol niweidiol i lywodraeth leol.
- 2.4 Oherwydd pandemig Covid-19 a'r swm sylweddol o is-ddeddfwriaeth y mae ei hangen i roi Deddf 2021 ar waith, bu angen blaenoriaethu, sydd wedi arwain at osod y Rheoliadau bryd hynny.

3. Cefndir deddfwriaethol

Rhannu swydd - aelodau gweithrediaeth prif gynghorau

- 3.1 Mae adran 58 o Ddeddf 2021 yn cyflwyno Atodlen 7 i'r Ddeddf honno sy'n gwneud diwygiadau i Ddeddf 2000. Mae'r diwygiadau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud darpariaeth yn eu trefniadau gweithrediaeth sy'n galluogi dau neu ragor o aelodau i rannu swydd ar weithrediaeth, gan gynnwys swydd arweinydd gweithrediaeth. Er mwyn darparu ar gyfer rhannu swydd yn achos swyddi gweithrediaeth, gwneir diwygiadau hefyd sy'n caniatáu cynnydd yn nifer uchaf aelodau gweithrediaeth o 10 i:
- 12, pan fydd o leiaf ddau o'r aelodau wedi'u hethol neu eu penodi i rannu swydd; neu
 - 13, pan fydd o leiaf tri o'r aelodau wedi'u hethol neu eu penodi i rannu swydd.
- 3.2 Mae darpariaethau pellach yn rhagnodi, mewn cyfarfodydd gweithredol, mai dim ond un bleidlais sydd gan aelodau gweithrediaeth sy'n rhannu'r un swydd rhyngddynt mewn perthynas ag unrhyw fater y mae ganddynt hawl i bleidleisio arno ac nad yw'r aelodau gweithrediaeth hynny ond yn cyfrif fel un person at ddibenion penderfynu a oes cworwm yn y cyfarfod.
- 3.3 Daw Adran 58 o Ddeddf 2021 ac Atodlen 7 iddi i rym ar 5 Mai 2022 yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed) 2021.
- 3.4 Mae angen diwygiadau canlyniadol i sicrhau bod trefniadau rhannu swydd yn gweithio yn unol â'r bwriad, ac yn gymwys yn gyson i awdurdod lleol, pwyllgor gwasanaethau democrataidd, pwyllgorau safonau, a phwyllgorau llywodraethu ac archwilio.

Cynorthwyr i'r Weithrediaeth

- 3.5 Mae adran 57 o Ddeddf 2021 yn diwygio Deddf 2000 i ddarparu y caiff awdurdodau lleol wneud darpariaeth yn eu trefniadau gweithrediaeth i benodi aelodau awdurdodau lleol i gynorthwyo'r weithrediaeth i gyflawni ei swyddogaethau. Mae gan unrhyw aelodau a benodir hawl i fynychu a siarad yng nghyfarfodydd y weithrediaeth neu ym mhwyllgorau'r weithrediaeth ond nid ydynt yn aelodau o'r weithrediaeth.
- 3.6 Mae Atodlen 6 i Ddeddf 2021 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, drwy ddarparu mai dim ond naill ai un cynorthwyydd gweithrediaeth neu un aelod gweithrediaeth y caniateir ei benodi i bwyllgor llywodraethu ac archwilio awdurdod lleol neu bwyllgor gwasanaethau democrataidd at ddibenion dyrannu'r sedd unigol sydd ar gael ar bob un o'r pwyllgorau hynny i aelodau'r weithrediaeth. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn perthynas â phwyllgor safonau awdurdod lleol.

- 3.7 Daw Adran 57 o Ddeddf 2021 ac Atodlen 6 iddi i rym ar 5 Mai 2022 yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed) 2021.
- 3.8 Mae adran 173 o Ddeddf 2021 yn nodi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau atodol, cysylltiedig neu ganlyniadol sydd yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion yn eu barn hwy at ddibenion rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 2021.
- 3.9 Mae'r Rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac fe'u gwneir yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ddrafft yn unol ag adran 174(4) a 5(t) o Ddeddf 2021.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae'r Rheoliadau yn gwneud y diwygiadau canlyniadol angenrheidiol i sicrhau bod y darpariaethau yn Neddf 2021 sy'n gymwys i benodi cynorthwyyr i'r weithrediaeth a rhannu swydd ar weithrediaeth awdurdod lleol yn gweithio yn unol â'r bwriad, ac yn gymwys yn gyson i awdurdod lleol, pwyllgorau gwasanaethau democrataidd, pwyllgorau safonau, a phwyllgorau llywodraethu ac archwilio.
- 4.2 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cael ei ddiwygio i ddarparu y caniateir penodi dau neu ragor o aelodau awdurdod lleol sy'n rhannu swydd ar ei weithrediaeth i bwyllgor gwasanaethau democrataidd yr awdurdod lleol hwnnw, neu ei bwyllgor llywodraethu ac archwilio ond mai dim ond fel un aelod y mae'r aelodau hynny'n cyfrif gyda'i gilydd at ddibenion aelodaeth, pleidleisio a threfnu cyfarfod mewn perthynas â phob pwyllgor.
- 4.3 Mae Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001") yn cael eu diwygio i ddarparu na chaiff pwyllgor safonau awdurdod lleol ond cynnwys un aelod gweithrediaeth neu gynorthwyydd gweithrediaeth, o'r awdurdod lleol hwnnw. At hynny, pan fo dau neu ragor o awdurdodau lleol yn sefydlu cyd-bwyllgor safonau, ni chaiff y pwyllgor hwnnw ond cynnwys naill ai un aelod gweithrediaeth neu un cynorthwyydd gweithrediaeth, o bob awdurdod lleol cyfansoddol.
- 4.4 Mae rheoliad 3 hefyd yn diwygio Rheoliadau 2001 i ddarparu y caniateir i ddau neu ragor o aelodau gweithrediaeth awdurdod lleol sy'n rhannu swydd gael eu penodi i bwyllgor safonau awdurdod lleol, ond nad yw'r aelodau hynny gyda'i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod at y dibenion a bennir (maint a chyfansoddiad y pwyllgor, pleidleisio a phenderfynu a oes cworwm yn y cyfarfod.
- 4.5 Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol a Threfniadau Amgen) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) (Cymru) 2002 yn cael ei ddiwygio i ddarparu nad yw maer dros dro nac aelodau gweithrediaeth dros dro i'w trin fel aelodau o weithrediaeth awdurdod lleol at ddiben y terfyn statudol a osodwyd ar nifer aelodau'r weithrediaeth a nodir yn adran 11 o Ddeddf 2000.

5. Ymgynghori

5.1 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol gan mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol y mae'r Rheoliadau'n eu gwneud. Roedd y darpariaethau yn adran 57 a 58 o Ddeddf 2021 yn destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid ac yn destun craffu yn ystod hynt Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) drwy'r Senedd.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn gan mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol i ddeddfwriaeth bresennol y maent yn eu gwneud ac nid ydynt yn gosod nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol na'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng Nghod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.